TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD

DYDDIAD Y PENDERFYNIAD	12/04/2017
DYDDIAD CYHOEDDI'R PENDERFYNIAD	18/04/2017
DYDDIAD Y BYDD Y PENDERFYNIAD YN DOD I RYM ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25.1 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd.	25/04/2017

ENW A THEITL YR AELOD CABINET –

Y Cynghorydd Dafydd Meurig

PWNC

Gwerthu rhydd-ddaliad Ysgol Llidiardau

PENDERFYNIAD

Awdurdodi yn unol â'r Adroddiad Swyddog

RHESWM DROS YR ANGEN AM Y PENDERFYNIAD

Gweler yr Adroddiad Swyddog

DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Dim

UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Cyngor Cymuned, Aelod Lleol, Swyddogion Statudol Cyngor Gwynedd.

Adroddir ar ganlyniadau'r ymgynghoriadau yn yr adroddiad

TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD – ADRODDIAD SWYDDOG

Enw a theitl yr Aelod/au Cabinet :	Y Cynghorydd Dafydd Meurig
Enw a theitl Awdur yr Adroddiad :	Lowri Cadwaladr Roberts Uwch Syrfewr Stadau
Dyddiad y Cymerwyd y Penderfyniad :	12:04:2017
Llofnod yr Aelod/au Cabinet :	

Pwnc :

Gwerthu rhydd-ddaliad Ysgol Llidiardau.

Argymhelliad ar gyfer y Penderfyniad:

Bod rhydd-ddaliad yr eiddo a adbyddir fel safle Ysgol Llidiardau, ynghyd â'r tir cysylltiedig (a amlinellir yn goch ar y cynllun) yn cael ei werthu ar y farchnad agored ar delerau ac amodau i'w pennu gan yr Uwch Reolwr Eiddo Corfforaethol.

Rheswm dros yr angen am y Penderfyniad:

Yn ei gyfarfod 15.09.2009 mabwysiadodd Bwrdd y Cyngor Bolisi Ôl-ddefnydd Ad-Drefnu Ysgolion.

Cydnabyddai'r Polisi fod ad-drefnu ysgolion yn debygol o arwain at sefyllfaoedd ble bydd safleoedd ysgolion yn dod yn weddill i anghenion y Cyngor ar gyfer cyflwyno gwasanaeth.

Penderfynwyd y byddai safleoedd sydd yn cael eu datgan yn weddill i anghenion yn cael eu gwaredu, a hynny yn unol â'r egwyddorion, polisïau gwaredu eiddo a'r gofynion statudol arferol. Rhan greiddiol o'r polisi ôl ddefnydd oedd rhoi cyfle teg i'r cymunedau sy'n cael eu heffeithio pan fo ysgol yn cau, i ystyried llunio cynllun busnes i gefnogi cymryd perchnogaeth o'r eiddo.

Penderfynwyd hefyd y dylid cyflwyno adroddiad gwerthu penodol ar gyfer pob safle ysgol am sêl bendith y Pwyllgor Ardal perthnasol. Yn dilyn yr ad-drefniad cyfansoddiadol yn 2012, gorffwysa'r awdurdod cyfatebol gyda'r Aelod Cabinet Perthnasol.

Rhesymeg a chyfiawnhad dros gyrraedd y Penderfyniad:

Yn achos Ysgol Llidiardau, ymgynghorwyd â'r Cyngor Cymuned oedd yn dymuno gweld datblygiad tai fforddiadwy ar y safle. Ymhellach, adnabyddwyd darparwr Tai Cymdeithasol ar gyfer ymgymryd a datblygiad o'r fath, ond yn y pen draw bu iddynt benderfynu yn erbyn datblygu'r safle.

Mae rhagdybiad felly o blaid gwerthu ar y farchnad agored. Er mwyn cyflawni ei ddyletswydd dan Adran 123 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, rhaid i'r Cyngor sicrhau'r pris gorau posib wrth waredu eiddo. Gan hynny, polisi'r Cyngor yw gwaredu ar y farchnad agored fel bod gan unrhyw un sydd â diddordeb gyfle i brynu neu brydlesu. Bydd hyn yn sicrhau'r pris gorau ac yn sicrhau tryloywder.

Nid oes unrhyw fwriad gwerthu am lai na gwerth y farchnad.

Cofnod o unrhyw fuddiant a ddatganwyd gan unrhyw Aelod Cabinet yr ymgynghorwyd â hwy ac unrhyw oddefeb gan Bwyllgor Safonau:

Dim.

Unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd cyn gwneud y Penderfyniad:

Ymgynghorwyd â'r Cyngor Cymuned. Eu dymuniad oedd gweld datblygiad tai fforddiadwy ar y safle, ond er i ddarparwr tai cymdeithasol gael ei adnabod ar gyfer gwireddu eu dymuniadau, bu iddynt benderfynnu yn erbyn datblygu'r safle.

Prif Weithredwr

"Dim sylwadau pellach".

Prif Swyddog Cyllid

"Dim gwrthwynebiad o safbwynt priodoldeb ariannol."

Swyddog Monitro

"Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb."

Aelod/au Lleol – Y Cynghorydd W. Gareth Roberts

"Hapus i gefnogi'r argymhelliad yma, ac yn awyddus i'r safle gael ei gwerthu i berson lleol."


1:1,250
N
Refail Bach
82.0m
Rhianfa
Cae Engan
Pond
Awel y Grug
Drain
Cwm
Coryn
FBs
Berth
Ysgol Llidiardau
Maen Enlli
86.8m
Fachwen
Pond
87.9m
Cae Du
© Hawlfraint y Goron a Hawliau Cronfa Ddata 2013 Arolwg Ordnans 100023387 - Cyngor Gwynedd Council